**WHC/2022/009**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2022**

**STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU**

**CATEGORI:**
**PERFFORMIAD / CYFLAWNI**

**Teitl:** Blaenoriaethu cyfnodau gofal cleifion COVID-19 gan Adrannau Codio Clinigol GIG Cymru

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad** 28/02/2023

**I'w weithredu gan:**
Reolwyr Codio Clinigol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Angen gweithredu erbyn:**
Cyn gynted a phosib ….

**Anfonwr:**

Ifan Evans, Cyfarwyddwr Technoleg, Digidol a Thrawsnewid

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
Rebecca Hazzard, Tîm Polisi a Chyflawni Digidol, Technoleg, Digidol a Thrawsnewid, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rebecca.hazzard@llyw.cymru, 03000 253250

Lisa Walters, Tîm Polisi a Chyflawni Digidol, Technoleg, Digidol a Thrawsnewid, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, lisa.walters@llyw.cymru , 03000 256682

**Dogfennau amgaeedig:** *Dim*

## Codio Clinigol ar gyfer COVID-19 yn y set ddata Cyfnodau Gofal Cleifion a Dderbynnir


### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth codio clinigol yng Nghymru ddynodi codau dosbarthiadau ar gyfer pob Cyfnod Gofal Ymgynghorol sydd wedi ei gwblhau. Mae'r codau hyn yn cofnodi'r cyflyrau clinigol sy'n effeithio ar y claf a'r triniaethau llawfeddygol/meddygol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod dan sylw.

Mae'r dosbarthiadau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y GIG yng Nghymru ar gyfer cofnodi diagnoses cleifion at ddibenion eilaidd yw'r '*International Statistical Classification of Diseases and related Health Problems 10th revision, 5th edition (2016)*'; y cyfeirir ato fel arfer fel *'ICD-10'*.

Mae data sydd wedi eu codio'n glinigol yn ffynhonnell pwysig ar gyfer gwybodaeth reoli o fewn GIG Cymru, a bod cael data cywir ac amserol yn rhan hanfodol o'r broses benderfynu.

Ar ôl i'r pandemig COVID-19 ddechrau yn gynnar yn 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd godau penodol ychwanegol ar gyfer nodi COVID-19 fel cyflwr mewn cofnodion cleifion ac o fewn setiau data, drwy ddefnyddio codau dosbarthiadau:




Yn ogystal â hyn, cafodd gwybodaeth benodol/safonau codio eu gweithredu mewn perthynas â dilyniant codau dosbarthiadau ar gyfer cofnodi COVID-19, er mwyn dangos sut oedd COVID-19 yn gysylltiedig â chyflyrau eraill. Y bwriad oedd sicrhau ei bod yn bosibl nodi'r wybodaeth ganlynol:

- Yr achosion lle mai Covid-19 yw'r prif gyflwr sy'n cael ei drin neu sy'n destun archwiliad yn ystod cyfnod gofal,
- Pa symptomau COVID-19 y mae'r claf mewnol yn eu dangos,
- Achosion lle mai COVID-19 sydd wedi achosi cyflyrau eraill (megis niwmonia)
- Cyflyrau parhaus sy'n gysylltiedig â haint COVID-19 blaenorol.

Gan fod natur y sefyllfa'n newid yn gyflym yn ystod y pandemig, mae angen i'r holl wybodaeth am achosion COVID-19 gael ei chofnodi mewn modd sydd mor brydlon a chywir â phosibl. Er mwyn hwyluso hynny, yn y flwyddyn ariannol 2020/21 gofynnwyd bod y data am Gyfnodau Gofal Cleifion a Dderbynnir yn cael eu cyflwyno'n amlach, sef o gael eu cyflwyno'n fisol i gael eu cyflwyno'n wythnosol, er mwyn sicrhau bod data sy'n gysylltiedig â chleifion mewnol a oedd â COVID-19, ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl i'r claf gael ei ryddhau.

Gan fod angen i wybodaeth COVID-19 fod mor amserol â phosibl, gofynnir i bob adran Codio Clinigol yn GIG Cymru sicrhau bod prosesau ar waith cyn gynted a phosib ar gyfer gwneud y canlynol:

- Nodi pob Cyfnod Gofal Ymgynghorol sydd wedi ei gwblhau ar gyfer cleifion â COVID-19 yn cael ei gofnodi'n union ar ôl i'r claf gael ei ryddhau, a bod y cofnod yn cael ei flaenoriaethu gan y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth y GIG o ran dynodi codau ar ei gyfer,
- Bod cyfnodau gofal o'r fath yn cael eu codio o fewn yr wythnos gyntaf ar ôl rhyddhau'r claf er mwyn ei gwneud yn haws cael darlun cywir wythnosol o'r data am gleifion â COVID-19.
- Bod pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG yn adrodd ar eu niferoedd a chanrannau o episodau COVID-19 a rhai nad ydynt yn rhai COVID-19 sydd heb gael eu codio i Lywodraeth Cymru (HSS.Performance@llyw.cymru) ar ddiwrnod olaf pob mis.